**Cofnodion Cyfarfod 12/04/21 - drwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| L T Davies | D M Evans (Yn y gadair) |
| J S Jenkins | W A Roberts |
| M Davies | M Evans |
| H Clayton | G A Williams |

**Ymddieuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr  Cynyr Ifan a Gari Jones

**Materion Personol**
Braf oedd medru diolch i'r Cyng G A Williams mewn person am ei flynyddoed o wasanaeth i'r Cyngor ynghyd a'r sefydliadau eraill y mae wedi cynrychioli fel Cynghorydd Cymunedol. Wnaeth y Cadeirydd ddiolch iddo o waelod calon am yr holl waith y mae wedi ei gyflawni gan hefyd ddymuno'r gorau iddo ar ei ymddeoliad.

Diolchwyd hefyd i'r clerc am ei gwaith dros y blynyddoedd a estynnwyd dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Wnaeth y Cyng J S Jenkins ddiolch am ein cydymdeimlad ar farwolaeth ei Fam yn ddiweddar.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Mawrth yn gywir gan y Cyng M Evans ac ategwyd hyn gan y Cyng  M Davies

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Cae Cymunedol*  Mae'r clerc wedi derbyn amcanbris ar gyfer y gwaith o dorri'r porfa a'r clawdd o amgylch y cae cymunedol (Cae'r Ysgol). £1,900 oedd y pris a dderbyniwyd oddi wrth gwmni D E Owen a'i Fab. Mi fydd y Cyng D M Evans yn cysylltu gyda Bronwen Morgan-James i drafod beth ydy ei bwriad ar gyfer torri'r porfa a sefydlu a ydynt yn bwriadu cyflwyno cais am gymorth ariannol.

*Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru* Cafwyd braslun am gynnwys y ddogfen ymgynghorol gan y Cynghorwyr W A Roberts a D M Evans. Mi roedd yn syndod faint mae'r broblem yn costio i'r Awdurdodau Lleol yn flynyddol ac mi roedd yna gydnabyddiaeth fod hon yn broblem enfawr ar hyd a lled y wlad.

*Swydd y Clerc* Mae Mrs Sioned Davies wedi gwneud cais am y swydd. Mi fydd y Cynghorwyr D M Evans a H Clayton yn cyfweld Sioned nos Lun nesaf.

**Ceisiadau Cynllunio**

A210240 Plotiau 1,3 a 5, tir ger Heol y Garreg, Pontgarreg – Codi garej ar y tri plot mewn cysylltiad gyda caniatad cynllunio A200696 – Mynegwyd gwrthwynebiad i'r datblygiad oherwydd maint yr adeiladau. Mi fyddai'r datblygiad yn gyfle i ddatblygu pellach ar gyfer creu unedau byw ychwanegol yn y dyfodol.  Mae angen sicrhau na fydd yna rhagor o ddefnydd o'r ffordd fynedfa sydd eisoes yn hollol anaddas ar gyfer y datblygiad sydd wedi ei caniatau – y tai.

A210276 Tir cyfagos i Dyffryn, Pontgarreg – Codi 4 annedd gan gynnwys 2 uned fforddiadwy – Mynegwyd gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig oherwydd maint y tai unigol. Mi roedd yna farn fod y tai yn rhy fawr i gymharu a maint y safle ynghyd a'r ffaith eu bod allan o gymeriad gyda gweddill tai y pentref.

**Gohebiaeth**
*Cyfraniadau Ariannol* Derbyniwyd llythyron yn diolch am y cyfraniadau ariannol oddi wrth HavHav, Eglwys Carannog Sant Llangrannog, Cerebral Palsy a Gofal Mewn Galar.

*Capel y Wig* Darllenwyd llythyr o gais am gymorth ariannol tuag at y gost o gynnal a chadw'r fynwent.

*Adnewyddu Cod Cefn Gwlad 2021 – Geiriad terfynol.* Derbyniwyd dogfen friffio allanol ar eiriad diwygiedig a therfynol y Cod Cefn Gwlad. Mi fydd y clerc yn danfon y ddogfen allan i'r Cynghorwyr.

*Prosiect Cranogwen* Derbyniwyd e-bost oddi wrth Anne-Marie Evans sydd yn aelod o'r pwyllgor sy'n trefnu gosod cofeb fel rhan o gynllun 'Monumental Welsh Women' (MWW). Mae'r pwyllgor yn gofyn am gyfraniad o £1,000 tuag at y prosiect. Yn unol a gofnodwyd mis diwethaf y maent wedi derbyn cyllid o £35,000 oddi wrth MWW ac hefyd wedi cael £5,000 oddi wrth Prifysgol Aberystwyth. Mae'r cyhoedd hefyd wedi cyfranu £4,500 o'r £10,000 sef yr isafswm y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei godi. Penderfynwyd fyddai'n fyddiol i'r Cynghorwyr cael rhagor o wybodaeth ynglyn a'r cynllun arfaethedig a phenderfynwyd rhoi gwahoddiad i aelodau'r Pwyllgor rhoi cyflwyniad byr ar ddechrau cyfarfod mis Mai.

**Taliadau**
Un Llais Cymru £145.00

**Unrhyw Fater Arall**
*Taflen Gwybodaeth Sbwriel a Chwn ar y traeth* Wnaeth y Cyng J S Jenkins adrodd fod Andrew Gaunt wedi bod yn anhwylus ac felly nid ydy wedi cwblhau'r gwaith o greu'r atodiad ar gyfer y daflen uchod. Gobeithir y bydd yn medru cwblhau'r gwaith yn fuan.

.